


CYLCHLYTHYR LLANBEDR D.C. NEWSLETTER

Rhifyn/Issue 2 Tachwedd/November 2020



Delwedd y clawr gan / Cover image by Marwan Ben-Sassi (8)

Croeso i ail rifyn cylchlythyr Cyngor Cymuned Llanbedr – *rydym yn dal i chwilio am enw bachog, gyda llaw!*

Er gwaethaf cysgod digalon a bythol bresennol Cofid 19, mae llawer achos dathlu yn ein cymuned ar hyn o bryd.

Mae teuluoedd newydd yn dod i fyw yn y tai newydd ym Maes Famau, ac rydym yn anfon croeso cynnes atynt.

Mae'r gwaith clirio ac adfer yn Hen Eglwys Sant Pedr yn dod yn ei flaen yn dda iawn, ac mae gweld yr ysgolion yn cymryd rhan drwy adeiladu gwesty ar gyfer pryfetach yn gyffrous. Bydd hwn yn atyniad mawr, siŵr i chi!

Diolch yn arbennig i berchennog Plas Llanbedr, Mr Rod Cox, am ei gydweithrediad.

Mae aelodau o'r cyhoedd, ynghyd a chynghorwyr lleol, wrthi'n frwdfrydig yn gweithredu ein rhaglen Gwirio Cyflymder, i drïo arafu traffig sy'n mynd drwy'r pentref, ac mae hynny'n esgor ar ganlyniadau.

Rydym yn estyn croeso cynnes i'r

Welcome to this second edition of Llanbedr Community Council newsletter - *we are still looking for a catchy name for it by the way!*

Despite the depressing and ever present shadow of Covid 19, there is much to celebrate in our community at the moment.

New families are moving into the new houses at Maes Famau, and we extend a warm welcome to them.

The clearance and restoration work at Old St Peters Church is progressing really well, and it's been exciting to see the schools involved, building a bug hotel. We think it will become a major attraction.

Special thanks to the owner of Llanbedr Hall, Mr Rod Cox, for his co-operation.

Members of the community, together with local councillors, are enthusiastically pursuing our Speedwatch programme to slow down traffic passing through the village, and that is yielding results. We warmly welcome Father Huw Bryant, the Mission Area Leader

Tad Huw Bryant, sef Arweinydd Ardal y Genhadaeth, a'i deulu i'n plith, ac mae Tafarn y Griffin ar ei newydd wedd yn prysuro i ailagor cyn gynted ag y bydd cyfyngiadau Cofid yn caniatáu.

Eich cyngor chi ydi'r Cyngor Cymuned, ac rydym yn lansio Cronfa Gwella Cymunedol yn y Cylchlythyr hwn (ac ar lein) fel y gall aelodau o'r gymuned wneud cais i'r Cyngor am arian ar gyfer cynlluniau, boed yn fawr neu fach, i wella bywyd y gymuned, yn enwedig ym maes cyfathrebu a dod â phobl ynghyd.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Cymuned yn cyfarfod drwy Zoom ar ddydd Llun cyntaf pob mis, ac mae'r cyfarfodydd yn agored i bawb.

Os hoffech chi wyllo, cysylltwch â Gwyn y Clerc ar **ifandavies18@yahoo.co.uk** neu ar **07887 955 613**

and his family into our community, and the refurbished Griffin Pub is revving up to re-open as soon as Covid restrictions allow.

The Community Council is your council, and in this Newsletter (and online) we are launching a new Community Improvement Fund, so that members of the community can apply to the Council for funding for schemes - however big or small, to improve life in our community, particularly in the realm of communication and bringing people together.

The Community Council meets currently by Zoom on the first Monday of every calendar month, and the meetings are open.

If you'd like to attend, please contac Gwyn the Clerk at **ifandavies18@yahoo.co.uk** or on **07887 955 613**

Cyngor Cymuned Llanbedr DC.

Llanbedr DC Community Council.



Croeso cynnes

i'r canlynol sydd wedi dod i fyw i'r pentref ers dechrau 2020:

Barbara a Paul (Lôn Cae Glas)
o Heswall

Rachel a Tony (Lôn Cae Glas)
o Dorset

Sian, Peter a Nel fach (Lôn Cae Glas) wedi dod yn ôl i'r ardal i fyw ar ôl cyfnod yn byw yn Llundain, ac wedi croesawu babi newydd, sef Tess, ers hynny.

Debbie a Barry wedi symud i'r Gatehouse ger y Griffin

Martin, Gemma, Wilfred, Arthur ac Edith wedi symud i "gyrion" y pentref er mwyn agor "Gwersyll Miniffordd" (rhwng Llanbedr a Rhewl)

Yr holl gyplau a theluoedd sydd eisoes wedi symud i mewn i ddatblygiad newydd sbon Maes Famau, gydag ychydig eto i ymuno â nhw.

Os ydym ni wedi'ch gadael chi allan, rhowch wybod i ni fel y gallwn eich croesawu chithau hefyd!

Pen-blwydd, pen-blwydd priodas, priodas neu fedydd, rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw ddyddiadau arbennig yr ydych am eu crybwyll a byddwn yn eu cynnwys yn ein rhifyn Gaeaf (ym mis Chwefror gobeithio!).

A warm welcome

to the following people who have moved into the village since the beginning of 2020:

Barbara & Paul (Lon Cae Glas)
moved from Heswall

Rachel & Tony (Lon Cae Glas)
moved from Dorset

Sian, Peter & little Nel (Lon Cae Glas) moved back into the area after living in London & since welcomed the arrival of baby Tess

Debbie & Barry moved into the Gatehouse by The Griffin

Martin, Gemma, Wilfred, Arthur & Edith who moved from the village to the "outskirts" to open up "Camping Miniffordd" (between Llanbedr & Rhewl)

All the couples & families that have already moved into the newly built Maes Famau development, with still a few yet to join them.

If we have missed you out, please let us know so we can make you feel welcome too !

Birthdays, Anniversaries, Weddings or Christenings, please let us know if you have any special dates you want mentioned and we will include them in our Winter edition (February hopefully!).



Ar nodyn tristach, os oes unrhyw un lleol wedi'n gadael, eto rhowch wybod i ni fel y gallwn hysbysu pobl a chydymdeimlo.

On a sadder note, if anyone local has sadly passed away, again please let us know so we can respectfully inform people and pay our respects.

Dyddiadau a Digwyddiadau Pwysig

Bydd cyhoedduswydd am unrhyw ddigwyddiad yn cael ei nodi fel a ganlyn:

Posterï (hysbysfwrdd Neuadd y Pentref), tudalen Facebook Llanbedr ac ar wefan Cyngor Cymuned Llanbedr.

Byddwn hefyd yn fwy na bodlon mynd a gwybodaeth ar bapur i unrhyw un na all gael mynediad at unrhyw un o'r dulliau hyn, dim ond i chi roi gwybod i ni.

Diary dates & Events

All event details will be publicised in detail via:

Posters (Village Hall notice board), Llanbedr Facebook & on the Llanbedr Community Council website.

We are also happy to hand deliver paper information to anyone who can't access any of these methods if you just let us know.

Dydd Gwener 4 Rhagfyr

"Dathliad Goleuadau Nadolig"
4 - 7 y.h.

Dydd Iau 24 Rhagfyr

"Gwasanaeth Gŵyl y Geni yn yr Awyr Agored" 6 y.h.

Dydd Gwener 25 Rhagfyr

"Gwasanaeth Dydd Nadolig"
9 y.b.

Friday December 4th

"Christmas Lights Celebration"
4 - 7 p.m.

Thursday December 24th

"Outside Crib service" 6 p.m.

Friday December 25th

"Christmas Day service" 9 a.m.

NEWYDDION DIWEDDARAF!

Ar ôl misoedd lawer o waith caled, mae tafarn **Y Griffin** bron yn barod i agor ei drysau. Ond gyda'r posibilrwydd o gyfnod cloi arall yn ein hwynebu'n ddyddiol, pwy a wŷr pa bryd fydd hyn. Beth bynnag ddigwyddith, meddai Sian Jones y perchennog newydd, ni fydd yr agoriad yn un mawreddog. Byddwn yn gweithio o fewn holl ganllawiau Cofid, o bosibl yn cael gwesteion yn y chwe ystafell wely sydd newydd gael eu hadnewyddu ac yn agor y bar a'r bwyty i ryw raddau - yn fwyaf tebygol gyda gwasanaeth bwrdd ac archebion ymlaen llaw yn unig. Peth braf fyddai bod berchen pelen risial!!

HOT OFF THE PRESS!!!

After months and months of hard work, **The Griffin** pub is almost ready to open, but with lockdown being an ever present possibility who knows when this will be. Either way, writes Sian Jones the new owner, the opening will not be a grand affair - we will work within all the Covid guidelines, possibly having guests in the six new refurbished bedrooms and opening the bar and restaurant to some degree - most likely with table service and advance bookings only. Don't we all wish we had a crystal ball!!

NEWYDDION AR GYFER Y CYLCHLYTHYR NESA



NEW FOR THE NEXT NEWSLETTER

'Ail-gylchu am ddim yn Llanbedr'

Os oes gennych chi unrhyw beth yr hoffech ei "ailgylchu" drwy ei roi'n rhad ac am ddim i rywun arall o'r pentref, gellwch "hysbysebu" yn y cylchlythyr nesaf. Gall hyn fod yn unrhyw beth nad ydych ei angen neu eisiau mwyach cyn belled nad yw'n sbwriel, er eu bod yn dweud mai sbwriel un dyn yw trysor dyn arall!

'Llanbedr Freecycle'

If you have anything you would like to "recycle" by handing it over to another villager free of charge, you can "advertise" it in the next newsletter. This can be anything you no longer need or want as long as it's not rubbish, although they do say one man's rubbish is another man's treasure!

Pwy yw dyn neu fenyw 'slim panatela'?

Mae gen i broblem Womblaidd. Rwy'n ei chael hi'n anodd cerdded heibio sbwriel heb ei godi.

Mae 'na lawer gwahanol fath o bobol sy'n lluchio sbwriel. Y beicwyr sy'n dympio deunydd lapio gel. Y crefftwyr sy'n stopio i gael cinio wrth giât cae ac yn gadael y bocs oedd yn dal eu brechdanau a chan diod ar ôl. Yfwyr hwyr y nos sy'n lluchio eu caniau lager gwag allan o'r car, a'r gyrwyr bore blinedig sy'n taflu caniau Red Bull. Y bolgwn MaccyD a'r bobol Costa Coffee.

Maen nhw i gyd yma, yn anffodus.

Ond mae un wedi tynnu fy sylw i. Pwy yw'r edmygwr slim panatela sy'n hoffi cerdded drwy'r pentref? Yr un sydd bob amser yn gollwng pecynnau gwag?

O.N. – Dwi'n ymwybodol bod 'na lawer o bethau ofnadwy'n digwydd yn y byd – Coronafeirws, yr argyfwng hinsawdd, anghydraddoldeb mewn cymdeithas a mwy. Ac rwy'n poeni am yr holl bethau hynny. Ond tydi hynny ddim yn fy atal rhag poeni am sbwriel hefyd.

Ian Lloyd Williams

Who is 'slim panatela' man or woman?

I've got a Womble problem. I find it hard to walk past litter without picking it up.

There are lots of different types of litterers. The cyclists who dump gel wrappers. The tradespeople who stop for lunch in a field entrance and leave their sarnie box and a can behind. The late night drinkers who sling their empty lager cans out of the car and the tired morning drivers who chuck Red Bull cans. The MaccyD snackers and the Costa coffee types.

We've got them all, sadly.

But one litterer has caught my eye. Who is the slim panatela lover who likes to walk through the village? And always drops their empty packets?

PS – I know that there are lots of terrible things happening in the world – coronavirus, the climate emergency, inequality in society and more. And I care about all those things but that doesn't stop me from caring about litter too.

Ian Lloyd Williams



**Gyda'n gilydd, mi fedrwn
wneud gwahaniaeth:**

**Na Laddwch!
Arafwch!**

Yn anffodus, fel y gwyddoch efallai, bu marwolaeth arall ar y ffordd yn ddiweddar - beiciwr modur - ar yr A494 rhwng Llanbedr a Rhuthun. Faint o fywydau eraill fydd yn cael eu colli cyn i **UNRHYW BETH CADARNHAOL** gael ei wneud i geisio lleihau goryrru?

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu cynnydd eto yn y nifer o ddamweiniau ar y ffyrdd. Yn 2019 ar ffyrdd y DU, bu 27,820 o ddamweiniau angheuol neu rai lle cafodd rhywun anaf difrifol, ac roedd yna 43 yn Sir Ddinbych yn unig.

Ers y cylchlythyr diwethaf, mae'r tîm Gwirio Cyflymder Lleol wedi cynnal nifer o sesiynau. Yr hyn sy'n creu'r mwyaf o bryder yw'r goryrru enbyd drwy'r pentref.

Yr enghraifft waethaf a gofnodwyd oedd beic modur yn gyrru **71mya! Sef 41mya dros y terfyn cyflymder cyfreithiol o 30mya!**

**Together we can make a
difference to:**

**Kill Speed!
Not Lives!**

Unfortunately, as you may be aware, there was another road death recently - of a motorcyclist - on the A494 between Llanbedr and Ruthin. How many more lives will it take before some **POSITIVE ACTION** is taken to try and reduce speeding?

Over the last few years, road traffic accidents have started to increase again. In 2019 there were 27,820 on all UK roads resulting in death or serious injury, and in Denbighshire alone there were 43.

Since the last newsletter, there have been a number of sessions undertaken by the local SpeedWatch team.

Most concerning is the excessive high speeding through the village - with the highest recently recorded by a motorcycle at **71mph! That is 41mph above the legal 30mph limit!**

Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn sicr yn cytuno bod hyn yn gwbl annerbyniol - er diogelwch preswylwyr **EIN PENTREF**, ymwelwyr, a'r gyrwyr eu hunain.

Gan edrych ar yr holl ddata y mae'r grŵp wedi'i gasglu hyd yma, maent wedi recordio cerbyd yn goryrru ar gyfartaledd bob 1.5 munud.

Rydyn yn treulio ein hamser hamdden yn dod at ein gilydd i geisio gwneud gwahaniaeth yn ein cymuned. Y gobaith yw, oherwydd yr holl ddata yr ydym yn ei gasglu, y bydd yr awdurdodau'n deffro o'r diwedd ac yn gwneud rhywbeth ynglŷn â'r mater difrifol hwn. Os ydych chi hefyd yn teimlo'r un mor gryf bod angen cadw ein pentref a'n ffyrdd mor ddiogel â phosib, - er budd y gymuned (a phawb arall o ran hynny!), yna ...

GALLWCH CHI HELPŪ!

trwy gysylltu â'r gweinidog a
Ebost: ken.skates@senedd.wales
Trydar: [www.twitter.com/
KenSkates.co.uk](http://www.twitter.com/KenSkates.co.uk)
Gwefan: www.KenSkates.co.uk
Lleiswch eich barn ar y goryrru yn ein pentref, a'r angen i weithredu.

Most people must surely agree that this is totally unacceptable - for the safety of residents in **OUR VILLAGE**, visitors, and drivers themselves.

Looking at all the data the group have accumulated to date, they have recorded a speeding vehicle on average every 1.5 minutes.

We hope that, with all the data we are accumulating, that the authorities will eventually wake up to doing something about this serious issue. If you also feel as strongly about keeping our village and roads as safe as possible for our community (and everyone else for that matter!), then...

YOU CAN HELP!

by contacting the Minister
Email: ken.skates@senedd.wales
Twitter: [www.twitter.com/
KenSkates.co.uk](http://www.twitter.com/KenSkates.co.uk)
Website: www.KenSkates.co.uk
and voice your opinion on the excessive speeding in our village, and the need for action.



Amser prysur i aelodau'r Eglwys.

Mae mis Medi wedi bod yn amser prysur iawn i aelodau'r eglwys, gyda chyfarfod pwyllgor eglwys i drafod dogfennaeth gan arweinydd ardal y genhadaeth ynghylch amseroedd gwasanaeth newydd arfaethedig. Ac roedd yn gyfle i aelodau ddweud eu dweud.

Cawsom Ddiwrnod agored ym mynwent yr eglwys i ddangos beth ydym yn bwriadu ei wneud yno. Daeth nifer dda o bobl draw, - aelodau'r Eglwys, trigolion Llanbedr a phentrefi cyfagos.

Yn ystod yr wythnos cyn y diwrnod agored, daeth dyn trin coed yma i dorri a thocio rhai o'r coed. Roedd y gwahaniaeth yn drawiadol iawn gan y gallem nawr weld lle byddai blodau gwyllt yn cael eu plannu, a lle bydd yr allor bren a wnaethpwyd gan y Tad Huw a'r seddi ar gyfer myfyrdod yn cael eu gosod.

Daeth gwirfoddolwyr i'r fynwent y Sadwrn canlynol. Defnyddiodd y Tad Huw ei li gadwyn i docio mwy o ganghennau ac fe gliriwyd eiddew oddi ar wal yr eglwys sydd agosaf at neuadd y pentref. Fe ddaeth pobol eraill i glirio'r eiddew fu'n tyfu dros y beddau ers blynyddoedd. Roedd gennym dractor a threlar aeth a sawl llwyth o ganghennau a llawryf i ffwrdd.

Y Sadwrn canlynol, fe wnaethom

A busy time for Church members.

September has been a very busy time for church members with a church committee meeting to discuss the documentation from the mission area leader regarding proposed new service times and was an opportunity for members to put forward their views.

We had an open Day at the churchyard to show what we intend to do in the churchyard, it was very well attended by church members and residents from Llanbedr and neighbouring villages.

During the week prior to the open day a tree surgeon had been to cut and trim some trees and the difference was really impressive as we could now see where the planting of wild flowers and the hand-made by Tad Huw wooden alter and seating for meditation would be.

The following Saturday volunteers gathered at the church yard, Tad Huw with his chain saw trimmed more branches and ivy was cleared away from the church wall nearest the village hall. Others cleared graves of ivy that had been there for years. We had a tractor and trailer which took away many loads of branches and laurel.

The following Saturday morning we gathered again and started cutting branches on the right of the church



ni gyfarfod unwaith eto i ddechrau torri'r canghennau i'r dde o'r eglwys. Datgelwyd beddau na ellid eu gweld o'r blaen gan fod y canghennau'n tyfu drostynt. Bu eraill wrthi'n tynnu eiddew oddi ar y beddau a'r waliau.

Fe wnaethon ni hefyd gario mainc bicnic fawr o neuadd y pentref, sef rhodd caredig i'r prosiect gan y Cyngor Cymuned. A bu'r trelar yn brysur iawn yn cario llwyth ar ôl llwyth. Rydym yn ddiolchgar iawn i deulu Roberts Bryn Awelon am gael benthg y tractor a'r trelar, ac am eu cymorth i lwytho'r trelar a chael gwared â'r eiddew a'r canghennau.

Rhodddwyd lluniau ar dudalen Facebook Llanbedr, a chafwyd ymateb gwych. Roedd pobol y pentref yn hoffi beth oeddem wedi'i wneud ac yn edrych ymlaen at weld y cyfan wedi'i gwblhau er mwyn iddynt gael dod yno i fwynhau'r heddwch wrth eistedd a gweddio, myfyrio, neu feddwl am eu hanwyliaid.

Gwenda Williams

which revealed graves that were not visible as the branches were covering them, others cleared graves and walls of ivy.

We also carried a large picnic bench from the village hall which had been kindly donated by the community council to the project. We had a trailer to again take many, many loads. We are very grateful to the Roberts family Bryn Awelon for the tractor/trailer and their help loading the trailer and disposing of the ivy/branches.

Photographs were placed on the Llanbedr Face book page and the response was fantastic with villagers liking what we had done and looking forward to seeing it finished so they can enjoy the peace and quiet as they sit and pray, reflect, or think of their loved ones.

Gwenda Williams

Yng ngeiriau'r Tad Huw Bryant ...

Father Huw Bryant writes...

Roedd yn brofiad cyffrous iawn symud gyda'm teulu i fyw yn Llanbedr ym mis Chwefror. Pan gefais fy sefydlu a fy nhrwyddedu fel Offeiriad ac Arweinydd Ardal Genhadol ar draws 12 eglwys Dyffryn Clwyd (yn cynnwys Eglwys San Pedr yma yn y pentref) ar Fawrth y cyntaf, roeddem yn barod i ddechrau pennod newydd o'n bywyd. Doedd gan neb ohonom syniad beth oedd o'n blaenau, ac y byddai'n rhaid i mi gloi drysau'r eglwysi dair wythnos yn ddiweddarach. Rydym wedi gwneud ein gorau drwy ffrydio gwasanaethau'n ddyddiol ers hynny, ac rydyn ni bellach wedi ailagor San Pedr a'r eglwysi eraill i addoli.

Mae'r gwasanaethau yma am 10.30 pob bore Sul ac am 6.00 yr hwyr ar ddydd Mawrth. Er mwyn sicrhau ein bod yn cadw pobl yn ddiogel a pharchu mesurau pellhau cymdeithasol, rydym yn gyfyngedig i faint sy'n gallu mynychu ar unwaith, felly rydym yn gofyn i bobl archebu lle trwy 'eventbrite':

<https://acdyffrynclwydma.wordpress.com/services/>

Mae hyn oll wedi ei gwneud hi'n anodd iawn i mi ddod i'ch adnabod chi i gyd a chyflwyno fy hun, ond rydyn ni wedi bod yn ceisio cadw mewn cysylltiad â chi dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Fe wnaethon ni sylwi bod nifer ohonoch chi wedi

It was with great excitement that I moved with my family to Llanbedr in February ready to start a new chapter in our lives as I was inducted and licensed as Priest and Mission Area Leader across the 12 churches of Dyffryn Clwyd (including our St Peter's here in our village) on the 1st of March. Little did any of us know of what lay ahead of us as 3 weeks later I was forced to lock the doors of our churches. We've done our best, live-streaming services every day since then, and we have now re-opened St Peter's and other churches for worship.

The services here are at 10.30am on Sunday and 6pm on Tuesday. To ensure we can keep people safe and keep social distancing measures we are limited to how many can attend at once so we are asking people to reserve a place through eventbrite:

<https://acdyffrynclwydma.wordpress.com/services/>

This has all made it very difficult for me to get to know you all and introduce myself but we have been trying to reach out over the last few months. We noticed that a number of you have been using the churchyard for your daily exercise whilst we were under lockdown and so we have started work on clearing the overgrowth and have planted several hundred spring bulbs as part

bod yn defnyddio'r fynwent ar gyfer eich ymarfer corff dyddiol yn ystod y cyfnod clo. Felly rydyn ni wedi dechrau'r gwaith o glirio'r gordyfiant ac wedi plannu cannoedd o fylbiau gwanwyn fel rhan o gynllun blodau gwyllt. Dylai hyn wneud y lle yn harddach fyth i chi ei fwynhau. Diolch i'r Cyngor Cymuned, mae gennym hefyd fainc bicnic yno ac rydym am gael mwy o feinciau i chi eistedd ac ymlacio.

of a wildflower scheme which should make the place even more beautiful for you to come and enjoy. Thanks to the Community Council we also have a picnic bench there and will be getting more benches for you to sit and relax.

We're looking at getting a self-service coffee machine that we'll be able to install in the porch of the church so that you can meet with



Rydym yn bwriadu gosod peiriant hunanwasanaeth ar gyfer coffi yng nghyntedd yr eglwys, er mwyn i niferoedd bychain ohonoch allu cyfarfod â'ch ffrindiau am baned wrth eistedd ac ymlacio ar dir yr eglwys.

Ar gyfer Diwrnod y Cofio, mae rhai o'r pentref wedi gwneud pabïau allan o hen boteli plastig felly mae yna arddangosfa goffa ym mynwent yr eglwys. Gall pobl ddod i dreulio ychydig eiliadau yna mewn gweddi a choffadwriaeth am y rhai a gollodd eu bywydau mewn rhyfel.

riends in small numbers and enjoy a coffee and sit and relax in the grounds around the church.

For Remembrance Day members of the village made poppies out of old plastic bottles so there is a remembrance display in the churchyard for people to come and spend a few moments in prayer and remembrance of those who lost their lives in war.

Ar gyfer y Nadolig mae cynlluniau ar y gweill i gynnal amryw o ddatliadau bychain o Wyl y Geni yn yr awyr agored ar gyfer niferoedd cyfyngedig. Ond wrth gwrs mae'n amhosib rhagweld sut y bydd pethau wedi newid erbyn hynny.

Mae'r dyddiau hyn yn rhai pryderus, ac mae'n anodd delio â beth all ddigwydd yn y dyfodol. Os ydych angen sgwrs, p'un a ydych chi'n mynd i'r eglwys ai peidio, rhowch ganiad i mi. Gallwn ni sgwrsio dros y ffôn neu drefnu coffi dan amodau pellter cymdeithasol.

Edrychaf ymlaen at y diwrnod pan allwn i gyd ymgynnull eto a gallaf ddod i'ch adnabod chi i gyd yn iawn. Tan hynny byddaf yn gwneud fy ngorau i wasanaethu'r gymuned fel y gelwir arnaf i wneud. Felly os ydych chi'n fy ngweld i'n cerdded o gwmpas, stopiwch fi a dweud helo, a gadewch i mi wybod beth alla i'w wneud i helpu.

Y Tad Huw Bryant
Arweinydd Ardal Genhadaeth
Dyffryn Clwyd

For Christmas plans are underway for outdoor nativities which we can do in small numbers, but of course it's impossible to predict how our circumstances might have changed by then.

It is a worrying time and anxiety of what the future might hold is difficult to deal with. If you would like to talk, whether you are a church-goer or not, please do give me a ring, we can chat over the phone or organise a socially distanced coffee.

I look forward to the day when we can all gather again and get to know you all properly, until then I will do my best to serve the community as I'm called to do. So if you see me walking around please do stop me and say hello and let me know what I can do to help.

Fr Huw Bryant
Mission Area Leader to Dyffryn Clwyd



Oes gennych chi syniad fyddai'n gwella'n cymuned?

Ydych chi wedi meddwl erioed bod 'na rywbeth ar goll ond sydd wir angen ar y gymuned hon?

Oeddech chi'n gwybod y gallwch chi wneud cais i'n Cronfa Gwella'r Gymuned?

Mae Cyngor Cymuned Llanbedr wedi neilltuo cyllideb i ariannu syniadau newydd, mawr neu fach all fod o fudd i'n cymuned. Y cyfan sydd rhaid i chi ei wneud os am wneud cais yw dweud wrthym beth yr hoffech chi ei wneud, naill ai trwy ein gwefan neu trwy e-bostio neu ffonio Clerc y Cyngor Cymuned, a bydd aelod o'n Grŵp Gwella'r Gymuned yn cysylltu â chi, trafod eich syniadau ac esbonio'r camau nesaf.

Byddwn yn ystyried unrhyw beth, o gynllun plannu blodau i gael mainc newydd, o siglen i ffrâm ddringo ... rydyn ni am glywed gennych chi!

Have you got an idea to improve our community?

Ever thought that our community is missing something it really needs?

Did you know that you can apply to our Community Improvement Fund?

The Llanbedr Community Council has set aside a budget to fund new ideas, big or small that will benefit our community. To apply all you need to do is tell us what you'd like to do either via our website or by e-mailing or calling the Clerk to the Community Council, and a member of our Community Improvement Group will call you back, talk your ideas through and explain the next steps.

We'll consider anything, from a flower planting scheme to a new bench, from a swing to a climbing frame...we want to hear from you!

Cysylltwch â Gwyn y Clerc ar ifandavies18@yahoo.co.uk neu ar **07887 955 613** neu ewch i <https://llanbedrddyffrynclwyd.org.uk>

Contact Gwyn the Clerk at ifandavies18@yahoo.co.uk or on **07887 955 613** or visit <https://llanbedrddyffrynclwyd.org.uk>

Wrth bori'n ddiweddar trwy hen gopiâu o daflen Hanes Lleol Rhuthun, deuthum ar draws erthygl a ysgrifennwyd gan y diweddar Kathleen Webb o dan y pennawd 'The Llanbedr Stone'. Bydd y preswylwyr hŷn ohonoch yn cofio Kathleen Webb yn byw yn siop y pentref a'r Swyddfa Bost ar y pryd, ac am ei diddordeb mawr mewn hanes lleol. Gan fod cymaint o waith da yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan 'Gyfeillion Hen Eglwys Sant Pedr', roeddwn i'n meddwl y byddai cynnwys yr erthygl o ddiddordeb.

Beth yw neu oedd 'Carreg Llanbedr'? Dyma rhan perthnasol yr erthygl:

"Ymhlith y rwbel ac yn ffurfio rhan o'r wal o dan y ffenestr ddwyreiniol datgelwyd carreg gerfiedig fawr. Roedd arni wyneb dyn yn edrych fel petai'n chwythu offeryn cerdd. Roedd siâp dail wedi'u cerfio uwch ei ben. Hefyd roedd yna ddraig gydag adenydd yn brathu ei chynffon ei hun. Roedd y garreg yn mesur troedfedd deg modfedd o hyd wrth naw modfedd o ddyfnder."



Whilst recently browsing through old copies of the Ruthin Local History 'Broadsheet' I came across an article written by the late Kathleen Webb under the heading 'The Llanbedr Stone'. Older residents will remember Kathleen Webb as living at the what was then the village shop and Post Office and of her great interest in local history.

What is/was 'The Llanbedr Stone'? Here is a quote from the article:

"Amongst the rubble and forming part of the wall beneath the east window there was revealed a large carved stone. It showed a man's face and he appeared to be blowing a musical instrument. Leaf shapes were carved above the head. Also depicted was a winged dragon biting its tail. The stone measured one foot ten inches in length by nine inches deep".

It was identified as part of a large grave stone which had been cut up and used as building material. The



Fe benderfynwyd ei bod yn rhan o garreg fedd fawr a oedd wedi'i thorri a'i defnyddio fel deunydd adeiladu. Cornel ddeheuig dexter (y dde) slab llawer mwy ydi'r darn. Mae carreg gerfiedig debyg wedi'i chadw yn Abaty Vale Crucis, ond yr un honno yw'r gornel waelod chwith sinister (chwith). Y gred yw i'r ddwy garreg gael eu cerfio gan yr un unigolyn ac yn yr un gweithdy, - yn Vale Crucis, mwyaf tebyg. Efallai bod Carreg Llanbedr wedi'i symud o Vale Crucis ar adeg diddymu'r mynachlogydd. Mae ei chyflwr yn llawer gwell na'r un sydd yn Vale Crucis.

Mae Mr Colin Gresham, awdur y cyhoeddiad "Medieval Carvings in North Wales", wedi cadarnhau ei dilysrwydd ac wedi ei dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Cofnododd ei darganfyddiad yn Archaeologica Cambrensis CXXXI, 1982, a'i dynodi'n "Garreg Llanbedr".

Comisiynwyd stand dderw arbennig gan bwyllgor 'Cyfeillion Hen Eglwys Sant Pedr' i ddal ac arddangos y garreg. Mae bellach wedi'i gosod yn Eglwys bresennol Sant Pedr, Llanbedr. Mae'r garreg yn gyswllt diriaethol rhwng y ddwy eglwys, yn rhan o dreftadaeth plwyf Llanbedr Dyffryn Clwyd a gofnodwyd ers saith can mlynedd."

Faint ohonoch chi sydd wedi gweld y garreg ac sy'n ymwybodol o'i harwyddocâd i Blwyf Llanbedr?

D. Gwynne Morris

piece is the dexter (right) corner of a much larger slab. A similar carved stone is preserved at Vale Crucis Abbey, but that one is the sinister (left) bottom corner. It is believed that both stones come from the same carver and the same workshop, - probably at Vale Crucis. The Llanbedr Stone might have been removed from Vale Crucis at the time of the dissolution of the monasteries. It is in a much better state of preservation than the one at Vale Crucis.

Mr Colin Gresham, author of the publication "Medieval Carvings in North Wales", has confirmed its authenticity and dated it as of the early fourteenth century. He recorded its discovery in Archaeologica Cambrensis CXXXI, 1982, and designated it "The Llanbedr Stone".

The Committee "Friends of Old St. Peter's" commissioned a special oak stand to be made to contain and display the stone. It is now placed in the present St. Peter's Church, Llanbedr, and is a tangible link between the two churches that are part of the recorded seven hundred years heritage of the parish of Llanbedr Dyffryn Clwyd."

How many of you have seen the stone and of its significance to the Parish of Llanbedr?

D. Gwynne Morris

Y gwaith yn Hen Eglwys Sant Pedr

The work on Old St Peter's Church

Gwnaed cynnydd sylweddol ers y cylchlythyr diwethaf. Amcan y Cyngor Cymuned yw meddiannu'r safle yn y pen draw a'i ddatblygu, nid yn unig fel man o ddi-ddordeb hanesyddol ac amgylcheddol i bobol Llanbedr ac i ymwelwyr, ond hefyd yn hafan o heddwch a thawelwch.

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cynnig rhoi'r safle neu ei brydlesu am rent rhad i Gymuned Llanbedr, ond cyn dod i unrhyw gytundeb mae'n rhaid i'r Eglwys yng Nghymru gyflawni nifer o rwymedigaethau:

Torri coed peryglus/wedi marw. Mae chwe choeden wedi eu torri eisoes a'r rhan fwyaf o'r pren wedi'i glirio, mae'r coed sy'n weddill wedi'u tocio lle bo angen i adael mwy o olau i mewn, ac mae'r Eglwys yng Nghymru wedi talu'r Contractwr. Mae'r naddion o'r canghennau wedi'u cadw i'w rhoi ar y llwybrau o amgylch y fynwent pan fydd gwaith adfer yr Eglwys wedi'i gwblhau yn y Gwanwyn.

Adfer yr Eglwys - mae'r rhan fwyaf o'r capio a phwyntio mortar yn darfod, gan adael i ddŵr glaw ddod i mewn. Rhaid clirio eiddew a llystyfiant ymledol arall cyn y gellir adfer adeiladwaith yr eglwys yn y tymor hir.

Ar hyn o bryd rydym yn trafod gyda'r Eglwys yng Nghymru iddynt dalu am yr atgyweiriadau brys. Mae nifer o brosiectau eraill yn digwydd ar yr un pryd:

There has been a lot of progress since the last newsletter. It is the Community Council's objective to eventually take over the site and develop it, not only as a place of historical and environmental interest for Llanbedr and visitors, but also a haven of peace and calm.



The Church in Wales (CIW) have offered to give the site or lease it for a peppercorn rent to the Llanbedr Community. However, before any agreement is reached a number of liabilities have to be discharged by CIW:

Fell Dangerous/Dead Trees. Six trees have now been felled and most of the wood removed, the remaining trees have been cut back where necessary to let more light in, the Tree Contractor has been paid for by the CIW.

Church Building Refurbishment - most of the mortar capping and pointing is becoming perishable, allowing the ingress of rainwater. Ivy and other invasive vegetation has to be cleared before the long term refurbishment of the building's fabric can take place.

Mae Ysgol Llanbedr yn defnyddio peth o'r coed a dorwyd i adeiladu Gwesty Pryfaid/Gwenyn.

Mae Uned Bioamrywiaeth CSDd wedi cwblhau archwiliad blodau gwyllt. Mae'r canlyniadau'n dangos bod ystod eang o flodau gwyllt yno eisoes, ond oherwydd cystadleuaeth gan weiriau maen nhw'n ei chael hi'n anodd ffynnu. Mae Swyddog Bioamrywiaeth CSDd wedi trefnu rhoi nifer fawr o blanhigion blodau gwyllt i ni yn rhad ac am ddim.

Mae'r Tad Huw Bryant am ddefnyddio ei sgiliau gwaith coed i wneud allor a dodrefn eraill gyda'r coed sydd wedi'u torri.

Mae Is-bwyllgor y Fynwent y Cyngor Cymuned wedi gwneud cais am arian grant i ddarparu hysbysfyrdau, ailosod gataiau metel y fynwent, penodi hanesydd, a datblygu gwefan.



Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu cymorth: Is-bwyllgor y Fynwent, y Tad Huw Bryant, Ysgol Llanbedr, Bioamrywiaeth CSDd, yn ogystal â rhestr faith o wirfoddolwyr. Fyddai dim o hyn wedi bod yn bosib heb eu cymorth hwy. Rhaid diolch yn arbennig i Mr Rod Cox am ei gydweithrediad hael.

We are presently negotiating with the CIW for them to pay for the urgent repairs. Running concurrently are a number of other projects:

Llanbedr School are building a Bug/Bee Hotel using wood from the felled trees.

DCC Biodiversity Unit have completed a wildflower audit, and the results show there are a large range of wildflowers already there, but because of competition from grasses they are struggling to thrive. The DCC Biodiversity Officer has arranged for a donation of a large number of wildflower plants.

Rev Huw Bryant is going to use his woodwork skills to make an altar and other furniture from the felled trees.

The Churchyard Community Council Sub Committee has applied for grant funding to provide notice boards, replacing the Churchyard metal gates, appointing a historian, and developing a website.

Can we thank the following for their help: The Churchyard Sub Committee, Father Huw Bryant, Llanbedr School, DCC Biodiversity and a long list of volunteers without whose help none of this would be possible.

Special thanks has to go to Mr Rod Cox for his generous cooperation. Can I make a plea to all visiting dog owners, you are very welcome, but can you leave your name and address when you throw your dog poo bag

A gaf i wneud cais arbennig i bob perchennog ci sy'n ymweld? Mae croeso mawr i chi ddod yma, ond os wnewch chi adael eich enw a'ch cyfeiriad pan fyddwch chi'n taflu'ch bagiau baw ci i dir Plas Llanbedr, byddwn yn gwneud ein gorau i'w dychwelyd nhw i chi?

Wel, rydyn ar y ffordd i atal tranc y fynwent. Dewch i'w gweld – mae rhywbeth arbennig am y lle. Rwyf wedi sylwi pan mae'n bwrw glaw yn y dyffryn, anaml iawn mae'r cawodydd yn cyrraedd y safle pan wyf wedi anghofio fy nghôt law!! Lyn Evans

into Llanbedr Hall grounds and we will endeavour to return it to you?

Well, we are on the way to stopping the demise of the Churchyard. Come and visit, it's a special place, I noticed when it's raining in the Vale, it rarely reaches the site when I have forgotten to take a raincoat!! Lyn Evans



Dathliad Goleuadau Nadolig Llanbedr

Eleni, bydd PAWB yn y pentref yn cael eu hannog i droi eu goleuadau Nadolig ymlaen ddydd Gwener 4 Rhagfyr am 5 y.h.

Rhwng 4 - 7 y.h., bydd cyfle i bawb gerdded i fyny at Hen Eglwys Sant Pedr (gyda fflachlamp), goleuo kannwyll o gylch tableau'r Geni, mwynhau mins peis a gwin poeth a cherdded yn hamddenol ac yn ddiogel yn ôl i'r pentref.

Ar yr un pryd, bydd coeden yr ardd lechi a goleuadau'r Neuadd Gymunedol i gyd yn cael eu goleuo, gyda chysegriad yn cael ei wneud yn yr ardd lechi am 5 y.h. Hefyd, bydd cerbyd gyda goleuadau ac yn chwarae cerddoriaeth Nadolig yn cael ei yrru o amgylch y pentref rhwng 5 - 7 y.h. i bawb ei fwynhau.

Bydd manylion pellach yn cael eu rhoi ar yr hysbyswrdd a'u postio ar y dudalen Facebook.

Llanbedr Christmas Lights celebration

This year ALL the village will be encouraged to "switch on" Christmas lights on Friday December 4th at 5 p.m.

There will be an opportunity to walk up to the Old St Peters church site (torch light), light candles around the nativity tableau, partake of mince pies and mulled wine & stroll back safely again into the village between 4 - 7 p.m.

At the same time, the slate garden tree and Community Hall lights will all be lit, with a dedication being said at the slate garden at 5 p.m. A vehicle with lights and playing Christmas music will also drive around the village between 5 - 7 p.m. for everyone to enjoy.

Further details will be posted on the noticeboard & Facebook page.

